***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1824 (Cy.165)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Gorffennaf 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Gorffennaf 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ailstrwythuro Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2009 ac mae'n dod i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol — Trefniant Arbennig) 1991

**2.** Mae Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol — Trefniant Arbennig) 1991(**2**) wedi'i ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth

**3.** Mae effaith i'r Atodlen (sy'n cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth).

(**1**) 2006 (p.42).
(**2**) O.S. 1991/509.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2009

## YR ATODLEN

Erthygl 3

Diwygiadau i Offerynnau Statudol

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974

**1.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Clefydau Gwenerol) 1974(**3**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (cyfrinachedd gwybodaeth) —

(a) yn lle "Regional Health Authority and every District Health Authority" rhodder "Local Health Board and NHS Trust"; a

(b) yn lle "Authority" rhodder "Local Health Board or the NHS Trust".

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Ffioedd a Godir ar Ymwelwyr Tramor) 1989

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Ffioedd a Godir ar Ymwelwyr Tramor) 1989(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli) —

(a) hepgorer y diffiniad o "Authority";

(b) yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad canlynol —

""Local Health Board" has the meaning assigned to it by section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**5**);".

(3) Ym mhob un o'r rheoliadau canlynol, yn lle "Authority" ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder "Local Health Board"—

(a) rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli);

(b) rheoliad 2 (codi ac adennill ffioedd);

(c) rheoliad 4 (ymwelwyr tramor sy'n esempt rhag ffioedd); ac

(ch) 8 (ad-daliadau).

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997

**3.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**6**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a dehongli) —

(a) ym mharagraffau (c) ac (f) o'r diffiniad o "responsible authority", ar ôl y geiriau "NHS Trust", mewnosoder "or Local Health Board";

(b) ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "voucher", ar ôl y geiriau "NHS Trust" ym mhob man y maent yn digwydd, mewnosoder "or Local Health Board.".

(3) Ym mharagraff (2) o reoliad 2 (ffioedd am sbectolau a lensys cyffwrdd) ar ôl y geiriau "NHS Trust" mewnosoder ", Local Health Board".

(4) Ym mharagraff (5) o reoliad 8 (cymhwyster — cyflenwi offer optegol) ar ôl y geiriau "NHS Trust" ym mhob man y maent yn digwydd mewnosoder "or Local Health Board".

(5) Yn rheoliad 10 (dyroddi talebau gan ymddiriedolaethau GIG) —

(**3**) O.S. 1974/29.
(**4**) O.S. 1989/306.
(**5**) 2006 p.42.
(**6**) O.S. 1997/818.

(a) yn lle'r pennawd, rhodder “Issue of Vouchers by NHS Trusts and Local Health Boards”;

(b) ar ôl y geiriau “NHS Trust” ym mhob man y maent yn digwydd, mewnosoder “or Local Health Board”.

(6) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ar dalebau ac wynebwerthoedd — cyflenwi ac amnewid), ym mharagraff 10 ar ôl y geiriau “NHS Trust” mewnosoder “or Local Health Board”.

(7) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromig, sbectolau bach a sbectolau arbennig ac offer cymhleth) ym mharagraff(1)(g), ar ôl y geiriau “NHS Trust” ym mhob man lle y maent yn digwydd, mewnosoder “or Local Health Board”.

**Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dwr) 2001(**7**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r geiriau “National Public Health Service for Wales” ym mhob man y maent yn digwydd, rhodder “Public Health Wales National Health Service Trust”.

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli) —

(a) hepgorer y diffiniadau canlynol —

(i) “health authority”, a

(ii) “National Public Health Service”;

(b) yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor ,mewnosoder y diffiniad canlynol —

““Public Health Wales National Health Service Trust” means a National Health Service Trust within the meaning of the National Health Service (Wales) Act 2006(**8**) if, and in so far as, it has the function of providing services in relation to public health in Wales;”.

**Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 (**9**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1)(ch) (sefydliadau sydd wedi'u heithrio) —

(a) ar ddiwedd paragraff (i) dileer “neu”;

(b) ar ddiwedd paragraff (ii) dileer “;” ac mewnosoder “, neu (iii) mewn Bwrdd Iechyd Lleol;”.

**Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(**10**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3 o Atodlen 1 (yr wybodaeth sydd i'w darparu ar gyfer cofrestru fel person sy'n rhedeg sefydliad neu asiantaeth) a pharagraff 8 o Atodlen 2 (y dogfennau sydd i'w cyflenwi gyda chais am gofrestru fel person sy'n rhedeg sefydliad neu asiantaeth) yn lle'r geiriau “except where the applicant is a local authority or NHS trust,” rhodder “except where the applicant is a local authority, an NHS trust or a Local Health Board,”.

**Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003(**11**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

---

(**7**) O.S. 2001/3911.
(**8**) 2006 (p.42).
(**9**) O.S. 2002/324 (Cy. 37).
(**10**) O.S. 2002/919 (Cy.107).
(**11**) O.S. 2003/2527 (Cy.242).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniad canlynol—

"mae i'r term "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yr ystyr a briodolir iddo gan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;".

(3) Yn rheoliad 3 (asiantaethau sydd wedi'u heithrio)—

(a) ar ôl y geiriau "ymddiriedolaeth GIG" mewnosoder "a Bwrdd Iechyd Lleol";

(b) ar ôl y geiriau "ymddiriedolaethau GIG eraill" mewnosoder "a Byrddau Iechyd Lleol eraill".

(4) Yn rheoliad 19(2)(iii) a (3)(c) (adolygu ansawdd y gofal), yn lle'r geiriau "unrhyw awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth GIG" rhodder "unrhyw awdurdod lleol, ymddiriedolaeth GIG neu Fwrdd Iechyd Lleol".

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007

**8.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**12**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniad canlynol —

"mae i'r term "Bwrdd Iechyd Lleol" ("Local Health Board") yr ystyr a briodolir iddo gan adran 11 o'r Ddeddf;".

(3) Yn rheoliad 11 (ad-daliadau) —

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl y geiriau "Ymddiriedolaeth GIG" ym mhob man y maent yn digwydd, mewnosoder "neu Fwrdd Iechyd Lleol"; a

(b) ym mharagraff (2), ar ôl y geiriau "Ymddiriedolaeth GIG" mewnosoder ", Bwrdd Iechyd Lleol".

## Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008(**13**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12 (pwerau i wneud datganiadau a hunanasesiadau yn ofynnol, fel rhan o drefniadau monitro ac archwilio swyddogion atebol neu fel arall), yn lle paragraff (2) rhodder y canlynol —

"(2) Caiff AGIC ofyn am ddatganiad cyfnodol priodol a hunanasesiad priodol gan —

(a) Ymddiriedolaeth GIG, neu gan berson sydd wedi'i gofrestru gyda'r Ymddiriedolaeth GIG honno ac sy'n darparu gofal iechyd; a

(b) Bwrdd Iechyd Lleol.".

(**12**) O.S. 2007/1104 (Cy.116).
(**13**) O.S. 2008/3239 (Cy.286).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gwneud diwygiadau i amrywiol ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth benodedig. Daw'r diwygiadau o ganlyniad i sefydlu strwythur newydd i ddarparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o 1 Hydref 2009 ymlaen.

Mae Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy.66)) ("Gorchymyn 2009") yn diddymu un ar hugain o'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol ar hugain presennol yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 ac yn darparu bod Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn parhau ar ei ffurf bresennol fel y'i sefydlwyd o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)). Mae Gorchymyn 2009 yn sefydlu chwech o Fyrddau Iechyd Lleol newydd hefyd.

Mae Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1306 (Cy.117)) yn diddymu saith o Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru ar 1 Hydref 2009. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, fel y'i sefydlwyd o dan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 (O.S. 1998/678), ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre, fel y'i sefydlwyd o dan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), yn parhau mewn bodolaeth.

Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl am Wasanaethau Fferyllol — Trefniant Arbennig) 1991.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn rhoi ei heffaith i'r Atodlen sy'n gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth amrywiol er mwyn adlewyrchu strwythurau newydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.